

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.2 Grantiau – addas ar gyfer ariannu



Trosolwg

Cyn dechrau ymgeisio am grantiau, rhaid ichi sicrhau bod y pethau hanfodol yn eu lle. A yw'r mudiad yn cael ei redeg yn iawn? A ydych yn rheoli'ch arian yn iawn? Rhaid i gyrrff ariannu gael gwybod eu bod yn gallu ymddiried eu harian i chi, a bod eich prosiect yn debygol o lwyddo.

Dyma rai o'r prif feysydd y bydd yn rhaid ichi eu hystyried:

Dogfennau llywodraethu

Y man cychwyn ar gyfer rheoli'ch grwp yw'r ddogfen lywodraethu, pa un a ydych yn grwp gwirfoddol, yn elusen gofrestredig neu'n gwmni cyfyngedig drwy warant.

A yw'ch cyfansoddiad wedi'i ddiweddarau ac a yw'n cynnwys yr holl weithgareddau? Os ydych yn ehangu, a yw'ch amcanion yn cwmpasu'ch cynlluniau newydd hefyd?

Ffurflenni

Os ydych yn elusen gofrestredig, neu'n gwmni, a ydych wedi dychwelyd eich ffurflenni blynyddol i'r Comisiwn Elusennau a/neu i D^y'r Cwmnïau? Cofiwch fod rhai cyrff ariannu'n arfer gwneud gwiriadau ar wefan y Comisiwn Elusennau.

Rheoli

A yw'ch pwyllgor yn gwybod beth yw ei gyfrifoldebau cyfreithiol? A oes ganddo'r wybodaeth a'r sgiliau y mae arno eu hangen? Os nad oes, a allwch ddangos eich bod yn gwybod beth yw'r bylchau a'ch bod yn gwneud rhywbeth yn eu cylch?

Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn dechrau prosiect newydd pwysig – er enghraifft, cyflogi staff am y tro cyntaf, neu brosiect adeiladu mawr.

Polisiau

A oes gennych bolisiau sy'n cwmpasu'r gwaith yr ydych yn ei wneud? Rhai o'r meysydd y gallai fod angen ichi eu hystyried yw: cyfle cyfartal; iechyd a diogelwch; gwirfoddoli; gweithio gyda phlant neu bobl sy'n agored i niwed, a chyfrinachedd.

Cyllid

A allwch roi cyfrifon blynyddol hyd at y flwyddyn ddiwethaf sy'n dangos eich sefyllfa ariannol yn glir?

A ydynt wedi'u cymeradwyo gan y pwyllgor, a'u gwirio neu eu harchwilio'n annibynnol?

A oes gennych systemau i gofnodi'r holl arian sy'n dod i mewn, ac yn mynd allan? A oes rhwystrau a mesurau rheoli sydd ar waith i osgoi camgymeriadau a chadw arian yn ddiogel? A ydych yn rhedeg ar golled? A oes gennych lawer o arian wrth gefn? Os felly, efallai y bydd yn rhaid ichi roi gwybodaeth ychwanegol i argyhoeddi corff ariannu ei bod yn werth mentro rhoi arian i chi, neu fod arnoch angen grant.

Mwy o wybodaeth

Fit for funding

Ffôn: 01924 239063

info@fit4funding.org.uk

www.fit4funding.org.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 01/02/2013



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk